

Recriwtio a Dewis Staff

- 1.0 Polisi'r Cyngor yw darparu cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar berthynas y Cyngor â'i swyddogion gan gynnwys Recriwtio a Dewis, Gwobrwyo, Dyrchafu a Hyfforddi a Datblygu.
- 2.0 Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau na fydd yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw ymgeisydd am swydd oherwydd unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig uchod.
- 3.0 Adolygir ein trefniadau recriwtio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael eu trin ar sail teilyngdod a gallu perthnasol.
- 4.0 Adolygir y meini prawf ar gyfer dewis staff yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r swydd ac nad ydynt yn anghymesur.
- 5.0 Dylid sicrhau nad yw hysbysebion swyddi'n stereoteipio nac yn defnyddio geiriau a allai achosi i rai grwpiau beidio ag ymgeisio.
- 6.0 Ni ddylid holi ymgeiswyr ynglŷn ag iechyd neu anabledd cyn cynnig swydd iddynt. Mae rhai eithriadau, ond bydd angen cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn wedi argymhellion oddi wrth yr Is-Bwyllgor Cyflogaeth. Er enghraifft:

Cwestiynau y mae angen eu gofyn er mwyn canfod a all unrhyw ymgeisydd

- gyflawni rhan annatod o'r swydd (ag addasiadau rhesymol) Cwestiynau er mwyn canfod a yw ymgeisydd yn ffit i fynd am asesiad, neu
 - unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen mewn cyfweiliad neu asesiad Camau cadarnhaol er mwyn recriwtio pobl anabl
 - Monitro cyfle cyfartal (na fydd yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau)
 - Ni fyddwn yn gofyn i ymgeiswyr a ydynt yn feichiog, a ydynt wedi bod yn feichiog yn y gorffennol, nac ychwaith a oes ganddynt unrhyw gynlluniau yn ymwneud â beichiogrwydd ar gyfer y dyfodol.
- 7.0 Ni fyddwn yn holi ymgeiswyr ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag oed, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, neu ailbennu rhywedd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gadeirydd y Is-Isbwyllgor Cyflogaeth sy'n gyfrifol am adnoddau dynol. (Dylai'r Cadeirydd ystyried yn gyntaf a yw materion o'r fath yn berthnasol ac a ellir rhoi sylw iddynt yn unol â'r gyfraith).
 - 8.0 Mae'n ofynnol i'r Cyngor yn unol â'r gyfraith sicrhau bod gan bob gweithiwr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.
 - 9.0 Ni ddylid gwneud tybiaethau ynglŷn â statws mewnfudo ar sail ymddangosiad neu genedligrwydd ymddangosiadol.
 - 10.0 Rhaid i bob darpar aelod o staff, beth bynnag ei genedligrwydd, allu cyflwyno dogfennau gwreiddiol (megis pasbort) cyn dechrau gweithio, er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth fewnfudo gyfredol.

Terfynu cyflogaeth

- 1.0 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod meini prawf a gweithdrefnau diswyddo'n deg ac yn wrthrychol ac nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol.
- 2.0 Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau bod gweithdrefnau disgyblu a chosbau'n cael eu cymhwyso heb unrhyw wahaniaethu, pa un a ydynt yn arwain at rybudd disgyblu, diswyddo neu gamau disgyblu eraill.